**YMCHWILIAD CRAFFU – TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION**

BRÎFF drafft

<table>
<tr><td>A</td><td>
<u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried</u>?<br><br>
Ychwanegwyd yr eitem 'Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion' fel eitem ychwanegol i raglen waith blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ôl y gweithdy blynyddol ar gais yr aelodau craffu.<br><br>
Craffwyd y trefniadau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod o ran y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024 lle mynegwyd pryder gan yr aelodau oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein ysgolion.<br><br>
Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo a mabwysiadu 'Cynllun Ymateb i Droseddu' yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2025, sy'n cynnwys ymchwiliadau a gwaith pellach i sicrhau trefniadau diogelu, ymysg amcanion eraill. Mae'r cynllun ymateb yn edrych yn eang ar nifer o wahanol feysydd,  ac mae'r ymchwiliad craffu – trefniadau diogelu mewn ysgolion wedi ei gynnwys fel un o'r ffrydiau gwaith yn y Cynllun.  Mae'r ymchwiliad yn edrych ar drefniadau diogelu cyfredol mewn ysgolion.<br><br>
Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau cadarnhaol rhwng y Comisiynydd Plant, swyddogion ac Aelodau Cabinet yn Tachwedd, a chyfarfod pellach rhwng y Prif Weithredwr a'r Comisiynydd ar y 9fed o Ragfyr, gwahoddwyd y Comisiynydd i roi mewnbwn i'r Cynllun Ymateb a chynnig i'w swyddogion fod yn rhan o'r drefn i fonitro cynnydd ar y gwahanol ffrydiau gwaith. Mae'r drafodaeth honno'n parhau ac yn drafodaeth gadarnhaol iawn.
</td></tr>
<tr><td>B</td><td>
<u>Nod yr Ymchwiliad</u><br><br>
Y prif gwestiwn i'w gyfarch fydd:<br><br>
'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson? '<br><br>
Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau allweddol canlynol:<br><br>
<u>Gwaith ymchwil a sefydlu ffeithiau:</u>
<ul>
<li>Beth yw'r gofynion gan gynnwys arweiniad mewn cylchlythyrau a chanllawiau ynghylch 'gofynion diogelu' mewn ysgolion?<br>(Gwasanaethau Cyfreithiol)</li>
<li>Beth yw trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion yng Ngwynedd?  (Arbenigwyr mewnol y Cyngor ym maes diogelu, Adran Addysg ynghylch polisïau diogelu)</li>
<li>Sut mae'r cydweithio rhwng ysgolion/yr Adran Addysg a'r Adran Plant yn gweithio?  (Arbenigwyr mewnol y cyngor – Adran Addysg a'r Adran Plant + ymatebion holiadur i ysgolion)</li>
<li>Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd? (trefniadau'r Awdurdod)</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • A oes esiamplau o ymarfer da yn genedlaethol, a sut y byddai trefniadau diogelu o'r radd flaenaf yn edrych mewn ysgolion? (hy sut y gellir sicrhau trefniadau da).<br><br>• Beth mae'r ysgolion yn ddweud am eu trefniadau diogelu a'r gefnogaeth gan yr awdurdod – a oes themâu penodol? (*canlyniadau holiadur blynyddol gan yr ysgolion*)<br><br><u>Sampl o ysgolion</u><br><br>• Sut mae'r trefniadau yn gweithio yn ymarferol yn yr ysgolion?<br><br>Rhoi'r ffocws ar yr ysgolion penodol a ganlyn:<br>6 ysgol gynradd (o'r 78)<br>3 ysgol uwchradd (o'r 12)<br>1 ysgol dilynol (o'r ddwy)<br>1 ysgol arbennig (o'r ddwy)<br><br>• Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd? (*Trefniadau'r ysgolion o'r sampl*)<br><br>• Beth mae'r ysgolion eu hunain yn ddweud am eu trefniadau diogelu? – (*holiadur blynyddol diogelu ysgolion*)<br><br><u>Ymweliadau:</u><br><br>Siarad gyda Llywodraethwyr (gan gynnwys y Llywodraethwr dynodedig diogelu), Pennaeth a Staff (gan gynnwys y Swyddog dynodedig diogelu) ym mhob lleoliad. |
| C | <u>Cefndir</u><br><br>Dogfennau cefndirol<br><br>- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020<br>- Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Diogelu gan Estyn<br>- Adroddiad Estyn 2023 – am yr awdurdod<br>- Polisi Diogelu Cyngor Gwynedd<br>- Cylch Gorchwyl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol<br>- Polisi Enghreifftiol Diogelu Plant yn Ysgolion Gwynedd<br>- Adroddiadau/Polisïau Diogelu ar gyfer yr ysgolion yr ymwelir â hwy<br>- Adroddiadau diweddaraf gan Estyn<br>- Holiadur blynyddol 'diogelu ysgolion' |
| CH | <u>Casglu Tystiolaeth</u><br>- Arbenigwr Allanol yn y maes<br>- Arbenigwyr Mewnol y Cyngor yn y maes<br>    ○ Swyddogion diogelu (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, Tîm Derbyn (Adran Plant), Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd - Adran |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| | Plant; Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant, Swyddog Diogelu a Llesiant Addysg - Adran Addysg)<br>o Pennaeth Addysg<br>o Gwasanaethau Cyfreithiol<br><br>- Mewn 11 ysgol<br>o Llywodraethwyr (Llywodraethwyr cyfrifol/dynodedig am faes diogelu)<br>o Pennaeth<br>o Aelod staff gyda chyfrifoldeb diogelu dynodedig o fewn yr ysgol<br>o Staff |
| D | <u>Dadansoddiad</u><br>- Pwyso a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd<br>- Ystyried gwybodaeth ymchwil a gwybodaeth cefndir |
| DD | <u>Llunio'r Adroddiad</u><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr<br>- Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy<br>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn y Cyngor<br>- Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad<br>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol |
| E | <u>Cynllun Gweithredu</u><br>- Cabinet/Aelod Cabinet/Adran Addysg i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion<br>- Gwahodd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion i drafod y cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r Craffwyr |
| F | <u>Tracio Cynnydd</u><br>- Diweddariad i alluogi'r craffwyr i asesu cynnydd |
| FF | <u>AMSERLEN</u> |

| | Beth | Arwain | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Mabwysiadu'r Brîff | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 13 Chwefror 2025 |
| 2 | Cyfarfod Cyntaf Aelodau'r Ymchwiliad<br>- Cyd-destun – Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Addysg, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol<br>- Dewis ysgolion i'w cynnwys yn y sampl | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 10 Mawrth 2025 |

DRAFFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Cyfarfod i ystyried trefniadau diogelu mewn ysgolion a threfniadau'r Awdurdod | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 17 Mawrth 2025 |
| 4 | Cyfarfod i ystyried:<br>- Barn Estyn ar drefniadau'r Awdurdod<br>- Ymarfer da<br>- Ymatebion ysgolion i gwestiynau am y maes diogelu yn yr holiadur blynyddol gan yr Awdurdod | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 31 Mawrth 2025 |
| 5 | Ystyried adroddiadau/gwybodaeth am yr ysgolion yn y sampl a llunio cwestiynau ar eu cyfer | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | 7 Ebrill 2025 |
| 6 | Ymweld â'r ysgolion (11 ysgol) | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Mai / Mehefin / Gorffennaf 2025 |
| 7 | Cyfarfod i drafod yr ymweliadau | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Awst 2025 |
| 8 | Cyfarfod i lunio canfyddiadau ac argymhellion drafft | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Medi 2025 |
| 9 | Dadansoddiad ac Adroddiadau drafft | Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol | Hydref 2025 |
| 10 | Adroddiad Drafft Terfynol<br><br>- Cyfarfod i rannu drafft terfynol adroddiad yr ymchwiliad craffu gyda'r Pennaeth Addysg a'r Aelod Cabinet | Aelodau'r Ymchwiliad<br>Swyddog Arweiniol<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | Tachwedd 2025 |
| 11 | Cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Cadeirydd yr ymchwiliad | 11 Rhagfyr 2025 |

DRAFFT